



Nos Iau, 11 Gorffennaf 2024 – 7.30yh  
Shiloh, Cwm Penmachno

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd **nos Iau 11 Gorffennaf 2024** am 7.30 yng Nghanolfan Gymunedol Shiloh

1. Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb
2. Datganiad o Fuddiant
3. Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf
4. Datganiad / esboniad gan dirfeddiannwr y llwybr sy'n croesi'r bont goncrit
5. Adroddiad Elusen Cymorth Mewn Angen Plwyf Hanesyddol Penmachno
6. Materion yn Codi o'r Cofnodion Blaenorol (nid fel arall ar yr agenda)
7. Gohebiaeth
8. Adroddiad Cyllidol
9. Materion Cynllunio
10. Materion eraill

**Presennol:**

Bethan Corrigan  
Claire Roberts  
Dafydd Gwyndaf  
Daniel Tomos (Clerc)  
Dylan Davies (Is Gadeirydd)  
Eifion Davies  
Eryl Owain (Cadeirydd)  
Owen Davis  
Wil Edwards  
Dilwyn Roberts (Cyngorydd Sir)  
A phedwar aelod o'r cyhoedd

**Ymddiheuriadau:**

Geraint Thomas

**Datganiad o fuddiant**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau

Minutes of a meeting held on **Thursday 11 July 2024** at 7.30 at Shiloh Community Centre

1. Welcome and apologies for absence
2. Declaration of interest
3. Confirmation of the minutes from the previous meeting
4. Statement / explanation from the landowner of the path that crosses the concrete bridge
5. A report from the Penmachno Charity
6. Matters arising from the minutes (not otherwise on the agenda)
7. Correspondence
8. Financial Report
9. Planning Applications
10. Any other business

**Present:**

Bethan Corrigan  
Claire Roberts  
Dafydd Gwyndaf  
Daniel Tomos (Clerc)  
Dylan Davies (Deputy Chairperson)  
Eifion Davies  
Eryl Owain (Chairperson)  
Owen Davis  
Wil Edwards  
Dilwyn Roberts (County Councillor)  
And four members of the public

**Apologies:**

Geraint Thomas

**Declaration of interest**

There were no declarations

## **Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod **09 Mai 2024** fel rhai cywir, Wil Edwards yn cynnig a Owen Davis yn eilio.

## **Datganiad / esboniad gan dirfeddiannwr y llwybr sy'n croesi'r bont goncrit**

Mynychodd Alun Davies y cyfarfod yn garedig iawn i roi esboniad am llwybr troed 73, sy'n croesi ei dir rhwng Hafod Dwyrdd a Cae Gwyn yn ogystal â'r trac i'r gorllewin o'r llwybr cyhoeddus sy'n croesi'r bont goncrit i ymuno â'r brif ffordd. Cafwyd toriad i gyfarfod y Cyngor Cymuned i hwyluso sesiwn cyfranogiad y cyhoedd.

Adroddwyd nad yw'r llwybr ar draws y bont yn llwybr cyhoeddus ond ei fod wedi bod yn llwybr Caniataol Gwirfoddol rhwng 2001 a 2023. Roedd y cytundeb wedi dod i ben gyda dim opsiwn ar gael ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru i ailagor y llwybr. Adroddwyd bod problemau'n dod gyda mynediad gwirfoddol fel cŵn yn tarfu ar stoc ffermydd a phobl weithiau'n tarfu ar ddefaid yn enwedig yn ystod y tymor wyna. Mae ceffylau mawr hefyd yn pori ar y fferm ac roedd problem wedi bod eleni yn enwedig gyda gatiau mewnol yn cael eu gadael ar agor gyda'r stoc yn cymysgu o fewn y fferm: problem hirdymor a fu'n waeth eleni.

Cynigiodd Alun ei fod yn ystyried rhoi rhyw fath o leisens i drigolion lleol gan ganiatáu iddynt gerdded ar y llwybr heblaw am gyfnodau sydd wedi'u heithrio megis diwedd Mawrth ac Ebrill yn ystod wyna ac ar fyr rybudd ar adegau eraill o'r flwyddyn.

Penderfynwyd cyhoeddi rhywbeth ar y cyfryngau cymdeithasol mewn cytundeb gyda'r tirfeddiannwr. Diolchwyd i Mr Davies am ddod i'r cyfarfod.

## **Materion yn codi:**

**Lorïau yng Nghwm Penmachno:** Adroddwyd bod yr arwyddion newydd bellach yn eu lle ar yr A5. Penderfynwyd cwyno i CNC am eu contractwyr yn parhau i yrru drwy Gwm Penmachno.

**Toiled Cyhoeddus:** Adroddwyd bod angen codi'r llawr a defnyddio dadleithydd i sychu'r concrit cyn gosod llawr newydd.

**Cerbydau Goryr:** Adroddwyd bod yr arwydd electronig newydd wedi'i osod. Dros gyfnod o 13 diwrnod, roedd 6,524 o gerbydau wedi heibio'r arwydd ac 85% wedi arafu. Roedd 3% o gerbydau yn cael eu gyrru ar fwy na dwywaith y terfyn cyflymder cyfreithiol.

## **Confirmation of the minutes**

The minutes of the **09 May 2024** meeting were accepted as a true record, proposed by Wil Edwards and seconded by Owen Davis.

## **Statement / explanation from the landowner of the path that crosses the concrete bridge**

Alun Davies very kindly attended the meeting to give an explanation about footpath 73, which crosses his land between Hafod Dwyrdd and Cae Gwyn as well as the track to the west of the public footpath which crosses the concrete bridge to join the main road. There was a break to the Community Council meeting to facilitate a public participation session.

It was reported that the path across the bridge is not a public footpath but had been a Permissive Path between 2001 and 2023. The agreement had come to an end with no option currently available from the Welsh Government to re-open the path. It was reported that problems come with voluntary access such as dogs disturbing farm stock and people sometimes disturbing sheep especially during lambing. Large horses also graze on the farm and there had been a problem this year especially with internal gates being left open with the stock mixing within the farm: a long-term problem which had been worse this year.

Alun offered to give some kind of license to local residents allowing them to walk on the path except for periods that are excluded such as the end of March and April during lambing and at short notice during other times of the year.

It was decided to publish something on social media in agreement with the landowner. Mr Davies was thanked for attending the meeting.

## **Matters arising:**

**Lorries in Cwm Penmachno:** It was reported that the new signs were now in place on the A5. It was decided to complain to NRW about their contractors continuing to drive through Cwm Penmachno.

**Public Toilet:** It was reported that the floor needs to be lifted and dehumidifiers used to dry the concrete before installing a new floor.

**Speeding Vehicles:** It was reported that the new electronic sign had been installed. Over a 13-day period, 6,524 vehicles had passed the sign and 85% had slowed down. 3% of vehicles were being driven at more than twice the legal speed limit.

**Gwasanaeth Ffôn Symudol:** Adroddwyd bod y mast yng Nghwm Penmachno i fod i gael ei droi ymlaen ym mis Gorffennaf. Cafodd y mast ym Mhenmachno ychydig o oedi tra bod BT/EE yn cael cytundeb gan Awdurdod y Parc dros y cynllun bioamrywiaeth.

**Arwydd Cwm Penmachno:** Adroddwyd nad yw'r arwydd wedi'i drwsio o hyd. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir unwaith eto.

**Arwyddion Betws-y-coed a Ilidwch:** Adroddwyd bod angen trwsio dau arwydd ger y dafarn. Penderfynwyd adrodd y mater i'r Cyngor Sir.

**Cyffordd Ffordd Grenyn gyda'r B4406:** Adroddwyd bod y Cyngor Sir wedi ymweld â'r safle a'u bod yn gobeithio gosod drych wedi'i osod ar bolyn os oes digon o le ar gyfer y polyn.

**Llwybr Cyhoeddus 55 – Y Waen:** Adroddwyd bod sawl e-bost wedi eu hanfon at adran draenio tir y Cyngor Sir ynglŷn â'r llifogydd ond roedd y Clerc yn dal i aros am ateb. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor eto.

**Llwybr troed 64 – Swch Isa:** Adroddwyd bod Warden y Parc wedi bod yn help mawr ac wedi trefnu i gcontractwr lleol wneud y gwaith atgyweirio.

### **Adroddiad Elusen Cymorth Mewn Angen Plwyf Hanesyddol Penmachno**

Cyflwynodd Dylan Davies adroddiad blynnyddol i'r elusen. Mynegwyd cydymdeimladau twymgalon i deulu'r diweddar Aled Penfridd. Adroddwyd bod tenantiaeth y fferm wedi cael ei hymestyn am flwyddyn arall oherwydd ansicrwydd am gynllun ffermio Llywodraeth Cymru. Roedd dau grant wedi eu talu i Neuadd Ty'n y Porth a Chlwb y Llan.

### **Gohebiaeth**

**Pont Rhydlanfair:** Adroddwyd bod coeden yn tyfu drwy'r bont a bod y mater wedi ei adrodd i'r Cyngor Sir.

**Planhigion:** Cymeradwywyd cais am arian o dan Adran 137 i brynu planhigion ar gyfer y safle bws / pagoda.

**Plasglasgwm:** Croesawyd cynllun i gynnal digwyddiad i'r gymuned yn Plasglasgwm yn frwd frydig.

**Sant Tudclud:** Derbyniwyd cais gan yr eglwys i gadw ardal o fynwent y Cyngor Cymuned yn St Tudclud ar gyfer

**Mobile Phone Reception:** It was reported that the mast in Cwm Penmachno was due to be switched on in July. The mast in Penmachno was slightly delayed while BT/EE seek agreement from the Park Authority over a biodiversity scheme.

**Cwm Penmachno Sign:** It was reported that the sign has still not been fixed. It was decided to contact the County Council again.

**Betws-y-coed and Give Way signs:** It was reported that two signs near to the pub need to be repaired. It was decided to report the matter to the County Council.

**Grenyn Road Junction with B4406:** It was reported that the County Council had visited the site and hoped to install a pole-mounted mirror if there is enough space for the pole.

**Footpath 55 – Y Waen:** It was reported that several emails had been sent to the land drainage department of the County Council regarding the flooding but none of the emails had been replied to. It was decided to contact the Council again.

**Footpath 64 – Swch Isa:** It was reported that the Park Warden had been very helpful and arranged for a local contractor to carry out the repair work.

### **A report from the Penmachno Charity**

A report about the charity was given by Dylan Davies. Heartfelt condolences were expressed to the family of the late Aled Penfridd. It was reported that the farm tenancy had been extended for another year due to uncertainty about the Welsh Government's farming plan. Two grants had been awarded to Neuadd Ty'n y Porth and Clwb y Llan.

### **Correspondence**

**Pont Rhydlanfair:** A tree growing through the bridge had been reported to the County Council.

**Plants:** A request was approved for funds under Section 137 to buy plants for the bus stop / pagoda.

**Plasglasgwm:** A plan to hold an event for the Community at Plasglasgwm was welcomed enthusiastically.

**St Tudclud:** A request had been received from the church to reserve an area of the Community Council's graveyard

blodau gwylt ac ar gyfer lleoli / claddu lludw. Penderfynwyd cynnal cyfarfod safle.

**Torri gwair yn y mynwentydd:** Penderfynwyd adolygu'r trefniadau torri gwair gyda'r bwriad o dorri'n gynharach yn y flwyddyn ac yn amlach. Penderfynwyd trafod y mater gyda'r eglwys, y contractwr a hefyd adolygu ffi flynyddol y contractwr.

## Adroddiad Cyllidol

Darparodd y Clerc restr o'r holl drafodion ariannol ers y cyfarfod diwethaf i'w dadansoddi. Cytunwyd bod popeth mewn trefn.

## Materion Cynllunio

Adroddwyd nad oedd unrhyw geisiadau newydd i'w hystyried. Roedd ymateb wedi ei anfon ynglŷn â chais ôl-weithredol am welliannau i ymddangosiad garej yn Llewelyn Street.

## Materion eraill

**Hysbysfwrdd:** Nodwyd bod gan y Cyngor Cymuned hysbysfwrdd newydd deniadol ym Mhenmachno. Diolchwyd i wr y Clerc am osod yr hysbysfwrdd.

**Graffiti, Posteri wedi'u Lamineiddio a Balwnau:** Penderfynwyd defnyddio cyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw'r gymuned at y broblem o graffiti yn y safle bws. Penderfynwyd annog pobl i beidio â defnyddio posteri wedi'u lamineiddio a balŵns a all niweidio neu hyd yn oed ladd da byw.

**Torri gwair yng Nghwm:** Nodwyd nad oedd y glaswellt wedi ei dorri ar y cae chwarae yng Nghwm Penmachno.

**Bws Ysgol:** Adroddwyd bod bws yr ysgol yn cario cymaint o blant fel bod rhai'n gor fod eistedd ar y llawr. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir.

**Pont Ceunant:** Adroddwyd bod coeden yn tyfu drwy'r bont ger Penmachno Hall. Penderfynwyd adrodd y mater i'r Cyngor Sir.

## Cyfarfod nesaf

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor nos iau 12 Medi 2024, 7.30 yn Festri Capel Salem.

at St Tudclud for wild flowers and the siting / burial of ashes. It was decided to hold a site meeting.

**Grass Cutting at the Cemeteries:** It was decided to review the grass cutting arrangements with a view to cutting earlier in the year and more often. It was decided to discuss the matter with the church, the contractor and also to review the contractor's annual fee.

## Financial Report

The Clerk provided a list of all financial transactions since the last meeting for analysis. It was agreed that everything was in order.

## Planning

It was reported that there were no new applications to consider. A response had been sent regarding a retrospective application for improvements to the appearance of a garage in Llewelyn Street.

## Other matters

**Noticeboard:** It was noted that the Council's has a smart new noticeboard in Penmachno. The Clerk's husband was thanked for installing the noticeboard.

**Graffiti, Laminated Posters and Balloons:** It was decided to use social media to alert the community to the problem of graffiti at the bus stop. It was decided discourage the use of laminated posters and balloons which can harm or even kill livestock.

**Grass Cutting in Cwm:** It was noted that the grass had not been cut on the playing field in Cwm Penmachno.

**School Bus:** It was reported that the school bus is carrying so many children that some are having to sit on the floor. It was decided to contact the County Council.

**Pont Ceunant:** It was reported that a tree is growing through the bridge near to Penmachno Hall. It was decided to report the matter to the County Council.

## Next meeting

The next meeting of the Council will be held on Thursday 12 September 2024, 7.30 at at Capel Salem Vestry.